Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Babanod Llangennech
Heol Pontarddulais
Llangennech
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA14 8UG

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/08/2015**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Babanod Llangennech ym mhentref Llangennech, ar gyrion tref Llanelli, yn Sir Gaerfyrddin. Mae’r ysgol wedi ffedereiddio gydag Ysgol Iau Llangennech ers mis Ebrill 2015.

Mae 237 o ddisgyblion rhwng 3 ac 7 oed ar y gofrestr ac maent wedi’u trefnu’n naw dosbarth. Mae’r ysgol yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu’r Saesneg mewn dwy ffrwd ar wahân. Cynigir addysg ddwyieithog yn y ddau ddosbarth derbyn, yna mae’r disgyblion yn trosglwyddo i un ai’r ffrwd Gymraeg neu’r un Saesneg. Daw tua 23% o’r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg ar yr aelwyd. Ychydig iawn o ddisgyblion sy’n dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Mae 10% o’r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, ffigwr sy’n sylweddol is na chyfartaleddau Cymru. Mae tua 25% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd eto yn is na chyfartaledd Cymru. Ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae’r gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Babanod Llangennech yn 2014-2015 yn £3,557 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £9,977 a’r lleiafswm yw £3,325. Mae Ysgol Babanod Llangennech yn y 65ain safle o’r 95 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Mae’r pennaeth gweithredol yn ei swydd ers Medi 2013. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Mehefin 2010.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yn dda oherwydd bod:

- Bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- Bod bron pob disgybl yn gwneud defnydd cyson ac effeithiol iawn o'u medrau llythrennedd a rhifedd
- Bod rhan fwyaf y disgyblion yn dangos diddordeb yn eu dysgu ac yn medru cydweithio'n gydwybodol gyda'i gilydd mewn gwahanol sefyllfaoedd
- Bod yr ysgol yn cynllunio profiadau dysgu cynhwysfawr sy'n ysgogi'r disgyblion
- Bod yr ysgol yn creu ethos Cymreig llwyddiannus ac yn cynnig cyfleoedd amrywiol i sicrhau bod disgyblion yn datblygu agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg
- Bod perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng yr holl staff a'r disgyblion, sy'n arwain at amgylchedd dysgu cadarnhaol ym mhob dosbarth
- Bod ethos cartrefol, cyfeillgar a gofalgar yn bodoli o fewn yr ysgol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- Bod arweinyddiaeth gadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol
- Bod yr holl staff yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod a chynllunio ar y cyd
- Bod gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gynyddol o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach
- Bod gan yr ysgol brosesau hunan arfarnu trylwyr sy'n seiliedig ar amrediad eang o dystiolaeth uniongyrchol
- Bod gan yr ysgol berthynas gref gyda rhieni sy'n cyfrannu symiau sylweddol o arian yn rheolaidd ar gyfer darparu adnoddau ychwanegol
- Bod yr ysgol wedi ei staffio'n effeithiol ac yn gwneud defnydd da o arbenigedd unigolion i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu
- Bod y cymorthyddion yn cynnig cynhaliaeth werthfawr i athrawon ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar godi safon gwaith a chyrhaeddiad disgyblion
- Bod yr ysgol yn darparu gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod disgyblion mwy abl yn cyflawni i'w potensial

A2 Gwella presenoldeb

A3 Sicrhau gwell cysondeb yn yr arfer o rannu nodau gwersi gyda'r disgyblion ar draws yr ysgol er mwyn iddynt ddeall yn well yr hyn maent yn ei ddysgu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau sylfaenol uwchlaw'r cyfartaledd. Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Gall rhan fwyaf y disgyblion ddwyn i gof ddysgu blaenorol yn dda a gall y rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn gymhwyso'u dealltwriaeth o gysyniadau mewn sefyllfaoedd newydd. Mae llawer yn datblygu'r medrau ehangach sydd eu hangen i'w paratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn briodol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n astud ar eu hathrawon yn ystod gwersi. Mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n fuan o ystyried eu cefndir ieithyddol. Maent yn awyddus i gynnig atebion neu sylwadau addas wrth siarad am eu gwaith. Maent yn datblygu ystod eang o eirfa briodol yn y ddwy iaith ac mae'r rhan fwyaf yn ei defnyddio'n glir a chywir wrth siarad am eu gwaith. Mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae medrau llafar bron pob un disgybl yn gadarn mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol yn y ddwy ffrwd.

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddysgu darllen. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau darllen ar goedd gyda'u hathrawon ac yn gwneud hyn yn gynyddol hyderus. Mae disgyblion ym mlynyddoedd cynnar y cyfnod yn caffael dealltwriaeth dda o'r berthynas rhwng llythrennau a seiniau ac maent yn eu defnyddio'n dda i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen gyda mynegiant clir yn y Gymraeg a Saesneg gan ymateb yn effeithiol i atalnodi. Mae rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn trin llyfrau ffeithiol yn dda i'w helpu i ddod o hyd i wybodaeth, er enghraifft, am bengwiniaid yn yr Antarctig.

Mae safonau llawysgrifen y disgyblion yn gyffredinol dda ar draws yr ysgol. Maent yn ffurfio eu brawddegau yn gywir gan ddefnyddio agoriadau gwahanol yn aml. Erbyn i'r disgyblion gyrraedd diwedd y cyfnod, mae gan y mwyafrif y gallu i ysgrifennu mewn ystod dda o wahanol gyfryngau; er enghraifft, creu posteri i hysbysebu trosedd Mistar Blaidd. Serch hynny, mae'r nifer helaeth o daflenni gwaith yn cyfyngu ar fedrau ysgrifennu estynedig y disgyblion mwy abl. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud defnydd cyson ac effeithiol o'u medrau llythrennedd mewn meysydd amrywiol.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion afael gadarn o fedrau rhifedd ac maent yn defnyddio'r wybodaeth yn hyderus i ddatrys problemau pob dydd. Mae eu dealltwriaeth o werth lle yn dda wrth adio cyfres o rifau ac wrth ysgrifennu rhai ffeithiau am rifau penodol. Mae llawer yn ymdrin â mesuriadau yn hyderus ac yn gallu creu lluniau môr ladron o siapiau 2d yn effeithiol. Maent yn casglu, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth yn effeithiol ar ffurf siartiau bar. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir i drafod eu gwaith. Maent yn dwyn i gof ffeithiau mathemategol yn gyflym ac yn medru egluro'u strategaethau gwaith pen yn glir.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu medrau ail iaith yn y Gymraeg. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau yn fedrus ac yn gwneud defnydd effeithiol o eirfa sylfaenol ar gyfer ymateb i weithgareddau dyddiol. Mae llawer yn dechrau darllen testunau syml yn gywir ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r hyn y maent wedi ei ddarllen. Mae rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn cynhyrchu darnau byr o ysgrifennu o safon uchel gan ddefnyddio'r patrymau iaith a ddysgwyd ganddynt.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol. O oed cynnar, maent yn cofleidio'r dechnoleg sydd ar gael ac yn gwneud defnydd medrus o gyfrifiaduron, tabledi a theganau rheoli y tu fewn a thu allan i'r dosbarth.

Dros amser, mae rhan fwyaf y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi tanberfformio o gymharu â'u cyfoedion. Fodd bynnag, yn ddiweddar, mae'r tuedd wedi newid ac mae perfformiad y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal neu'n well na pherfformiad y disgyblion eraill. Nid oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn o gymharu â merched. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da, ond nid yw'r disgyblion mwyaf galluog bob amser yn cyrraedd eu potensial.

O gymharu ag ysgolion tebyg, dros dair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliannau disgwyliedig wedi bod yn gyson yn y 25% uchaf mewn llythrennedd Cymraeg. Mae wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% uwch mewn datblygiad mathemategol. Mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig mewn llythrennedd Saesneg wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf.

Yn ystod yr un cyfnod, mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd ar y deilliant uwch mewn llythrennedd Cymraeg wedi bod yn gyson yn y 50% is. Mewn Saesneg a datblygiad mathemategol, mae'r perfformiad yn dangos tuedd ar i lawr. Mae wedi gostwng o'r 50% uwch i'r 25% isaf mewn llythrennedd Saesneg, ac o'r 50% is i'r 25% isaf mewn datblygiad mathemategol.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod y gallant droi at unrhyw aelod o staff yr ysgol am gyngor a chymorth. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol at fyw'n iach, ac maent yn deall pwysigrwydd bwyta diet cytbwys a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos diddordeb mawr yn eu dysgu ac maent yn medru cydweithio'n gydwybodol gyda'i gilydd. Maent yn cyfrannu syniadau'n rheoliad sy'n llywio'r themâu tymhorol. Mae ymddygiad disgyblion yn dda iawn yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol.

Mae'r cyngor ysgol wedi ei sefydlu'n dda, ac mae'r aelodau yn deall eu rolau'n glir. Gwnânt gyfraniad gwerthfawr at benderfyniadau yn yr ysgol; er enghraifft, maent wedi gwneud cais i'r llywodraethwyr i helpu gwella'r amgylchedd o gwmpas yr ysgol. Arweiniodd hyn at gael y Cyngor Sir i ddarparu biniau ychwanegol ar y buarth.

Mae disgyblion yn manteisio ar ystod eang o weithgareddau yn yr ysgol a phrofiadau allgyrsiol, fel gwasanaethau, cyngherddau a gweithgareddau cymunedol i ddatblygu eu medrau bwyd yn effeithiol.

Mae'r cyfraddau presenoldeb, er wedi gwella yn ddiweddar, wedi bod yn gyson yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros bum mlynedd. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu cynhwysfawr sy'n ennyn diddordeb ac yn ysgogi'r disgyblion yn dda. Er enghraifft, mae'r disgyblion wedi cryfhau eu dealltwriaeth a gwybodaeth am y byd a'u medrau personol a chymdeithasol wrth gyfweld â gŵr a deithiodd i'r Antartig. Mae'r cynlluniau gwaith yn ymateb yn llwyddiannus i ofynion y Cyfnod Sylfaen a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Gwna'r ysgol ddefnydd da iawn o staff cynorthwyol i gefnogi llythrennedd a rhifedd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion wedi ymgorffori'n gadarn ar draws yr ysgol. Mae'r cynlluniau diweddar yn drwyadl iawn ac yn sicrhau dilyniant a pharhad amlwg. Maent yn cynnwys cyfleoedd rheolaidd a phriodol ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu, meddwl a TGCh y disgyblion.

Mae'r ysgol yn creu ethos Cymreig llwyddiannus ac yn cynnig cyfleoedd amrywiol i sicrhau bod disgyblion yn datblygu agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg. Mae'r disgyblion yn siarad yr iaith gyda balchder. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn drwyadl ac yn sicrhau defnydd cyson o'r iaith yn ddyddiol. Mae rhaglen o ymweliadau i'r ysgol, gan gwmni drama, er enghraifft, yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion o ddiwylliant Cymru yn effeithiol. Mae cymryd rhan mewn eisteddfod leol ac Eisteddfod yrr Urdd yn ehangu profiadau'r disgyblion yn llwyddiannus.

Mae addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd eang yn dda. Mae gan y disgyblion wybodaeth dda am y byd ehangach trwy ddysgu am a chefnogi elusennau tramor, ymgymryd â phrosiectau, er enghraifft i godi ymwybyddiaeth o'r fforestydd glaw ac i hyrwyddo masnach deg. Mae'r cyngor Eco yn hyrwyddo cynaliadwyedd yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn gwobrwyo'r dosbarth sydd wedi gwneud yr ymdrech fwyaf i arbed ynni, ailgylchu a lleihau sbwriel gyda bwlb aur ac esgid aur am leihau llygredd trwy gerdded i'r ysgol.

**Addysgu: Da**

Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng yr holl staff a'r disgyblion. Mae hyn yn arwain at amgylchedd dysgu cadarnhaol ym mhob dosbarth. Mae gan y staff ddealltwriaeth gadarn o'r cwricwlwm ac maent yn holi disgyblion yn effeithiol i gadarnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac i ymestyn eu syniadau. Maent yn defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu ac adnoddau cynhwysfawr yn fedrus i gefnogi'r addysgu. Mae'r athrawon yn cynllunio'n ofalus i ddarparu ystod briodol o

weithgareddau dysgu sy'n ysgogi rhan fwyaf y disgyblion yn effeithiol. Mae'r cynllunio tymor byr yn sicrhau cyfleoedd cyfoethog sy'n annog cyfranogiad disgyblion. Maent yn addasu tasgau yn effeithiol i fodloni anghenion y dysgwyr llai abl. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau bob amser yn ddigon heriol ar gyfer y disgyblion uwch eu gallu. Maent yn cyfyngu ar gyfleoedd i'r disgyblion hyn i gynllunio, a datblygu eu syniadau eu hunain.

Mae bron pob un o'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac, yn y rhan fwyaf o achosion, maent yn nodi disgwyliadau pwrpasol ynghyd ag adborth priodol iddynt ar sut i wella eu dysgu. Mae rhannu nod y wers a'r amcanion dysgu yn anghyson ar draws yr ysgol. Mae'r disgyblion yn hyderus yn asesu gwaith eu hunain. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i asesu gwaith eu cyfoedion ar y lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu.

Mae'r athrawon i gyd yn defnyddio deilliannau asesu yn llwyddiannus iawn i olrhain cynnydd disgyblion yn eu medrau ar draws y cwricwlwm. Mae'r staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fedrus i gynllunio'n fanwl ar gyfer gwahanol grwpiau o ddysgwyr. Caiff y weithdrefn asesu ei rheoli a'i gwirio'n effeithiol.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn bodloni'r gofynion ac yn cynnwys ystod o wybodaeth ddefnyddiol am gynnydd a chyrhaeddiad y disgyblion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle rhoddir blaenoriaeth uchel ar iechyd a lles disgyblion. Mae'n gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda ac yn meithrin gwerthoedd yn seiliedig ar onestrwydd, caredigrwydd a pharch at eraill. Mae ymweliadau i'r eglwys a chymryd rhan mewn cyngherddau yn yr ardal yn cyfoethogi profiadau ysbrydol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda nifer o asiantaethau allanol ac, o ganlyniad, mae ansawdd y gofal a'r gynhaliaeth i'r disgyblion yn gadarn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. O dan arweiniad clir y cydlynydd, mae'r ysgol yn adnabod y disgyblion sydd angen cymorth dysgu ychwanegol yn gynnar. Mae staff yn darparu cynlluniau addysgu unigol ar gyfer disgyblion perthnasol, ac yn cynnal adolygiadau o'u cynnydd yn rheolaidd, gan gynnwys rhieni a disgyblion fel rhan o'r broses. Mae'r staff cymorth yn gwneud cyfraniad cadarnhaol iawn at ddatblygiad y disgyblion hyn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos cartrefol a chynhwysol sy'n cynnig cyfle cyfartal i bawb. Mae'n gymuned glos a chroesawgar ac mae awyrgylch cynnes a naturiol yn bodoli rhwng y staff a'r disgyblion. Mae'r disgyblion yn dangos parch a chonsyrn tuag at ei gilydd a thuag at eraill sy'n llai ffodus na nhw. Mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau'r ysgol yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol yn dda.

Gwneir defnydd effeithiol o’r prif adeilad a’r cabanau sydd ar y safle fel adnoddau dysgu i ddisgyblion. Mae’r arddangosfeydd yn symbylol, lliwgar a deniadol. Ceir amrywiaeth helaeth o adnoddau o ansawdd da ac fe’u defnyddir yn effeithiol ar gyfer dibenion y disgyblion.

Mae’r ardal allanol yn adnodd cyffrous iawn sy’n darparu amgylchedd ysgogol ac amrywiol i gyfoethogi dysgu’r disgyblion. Mae gwahanol ardaloedd wedi eu hadnewyddu’n ddiweddar. Er enghraifft, yn dilyn ymweliad â phentref Sali Mali mae gan y disgyblion eu ‘pentref’ eu hunain, sy’n cynnig cyfleoedd arbennig iddynt ehangu eu medrau ieithyddol a chreadigol. Mae’r holl amgylchedd yn cynnig cyfleoedd da ar gyfer chwarae a dysgu.

Mae’r safle a’r adeiladau mewn cyflwr da ac maent yn cael eu cynnal a’u cadw’n effeithiol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth bwrpasol sy’n cael eu rhannu’n llwyddiannus gyda’r staff a’r llywodraethwyr. Mae’n dosrannu cyfrifoldebau’n effeithiol ac mae ganddo rôl allweddol mewn hybu cydweithio pwrpasol a rhannu arfer dda. Mewn cyfnod byr, mae wedi cael effaith sylweddol ar ethos yr ysgol, datblygiad staff ac ansawdd da’r adeilad a’r ardal allanol.

Mae aelodau’r uwch dîm rheoli’n cyflawni eu cyfrifoldebau’n effeithiol. Mae’r athrawon yn ymroddedig a brwdfrydig ac mae’r holl staff yn cydweithio’n agos iawn fel tîm. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y profiadau ysgogol a ddarperir ac ar godi safonau disgyblion. Mae arweinwyr yn defnyddio cyfarfodydd staff fel cyfrwng effeithiol i drafod cynllunio, a chynnydd yn y blaenoriaethau yn rheolaidd.

Mae’r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae’r defnydd o’r Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd ar gyfer mapio’r medrau ar draws y cwricwlwm wedi eu plethu’n effeithiol ar draws y themâu. Mae gan yr ysgol drefniadau penodol ac effeithiol i wella lles a chyflawniad y disgyblion mwy bregus.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gynyddol o gryfderau’r ysgol ac o’r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae’r cynlluniau diweddar wedi’u galluogi i arsylwi ar yr addysgu yn fwy systematig ac i ddod i farn sicr ynghylch safonau gwaith a chyrhaeddiad disgyblion. Maent yn defnyddio eu gwybodaeth yn bwrpasol i gyfrannu’n fwy effeithiol at y broses hunan arfarnu.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hunan arfarnu trylwyr sy’n seiliedig ar wybodaeth o amrediad eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae’r rhain yn cynnwys dadansoddi data perfformiad disgyblion, arfarniadau monitro trylwyr i werthuso safonau, ac ansawdd yr addysgu a’r dysgu, barn reolaidd y rhieni a’r llywodraethwyr, ac adolygiadau

tymhorol gan asiantaethau addysgol allanol. Defnyddir y wybodaeth hon yn effeithiol i adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn drylwyr ac, ar y cyfan, yn cynnig darlun cywir o'r ysgol. Mae'r adroddiad yn dystiolaeth bod arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir trwy'r gweithdrefnau hunan arfarnu yn bwrpasol ar gyfer pennu blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r cynllun datblygu yn gynhwysfawr ac yn nodi targedau perthnasol a phenodol ac mae ynddo feini prawf llwyddiant sy'n canolbwyntio'n briodol ar ddeilliannau disgyblion. Mae'n rhoi amlinelliad clir o amserlen gweithredu, meini prawf llwyddiant, cyfrifoldebau staff, gofynion cyllidol a threfniadau ar gyfer monitro.

Gall yr ysgol ddangos bod y weithdrefn hunan arfarnu wedi arwain yn ddiweddar at greu grŵp ymyrraeth benodol sydd, yn ei dro, wedi cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad, hunanhyder a hunan-barch disgyblion sy'n rhan ohono.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaethau strategol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn y profiadau dysgu'n effeithiol.

Mae gan yr ysgol berthynas gref gyda rhieni sy'n cyfrannu symiau sylweddol o arian yn rheolaidd ar gyfer darparu adnoddau i ychwanegu, er enghraifft at offer technoleg gwybodaeth a llyfrau darllen yr ysgol. Mae'r ysgol yn hysbysu'r rhieni'n dda am faterion cwricwlaidd ac, yn fwy diweddar, sefydlwyd fforwm rhieni i roi mewnbwn pellach iddynt ar gynnwys cynlluniau a gweithdrefnau'r ysgol.

Mae'r ethos agored a chroesawgar yn llwyddo i ddatblygu partneriaethau effeithiol gyda holl aelodau cymuned yr ysgol. Mae'r cysylltiadau cadarn gydag asiantaethau, cymdeithasau a busnesau lleol yn cyfoethogi'r profiadau dysgu yn effeithiol. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o gymorth unigolion o'r gymuned i gyfrannu at brofiadau a chefnogi gweithgareddau'r disgyblion, er enghraifft y gwirfoddolwyr sy'n gwrando ar ddarllen. Mae'r cydweithio agos gyda siopau lleol yn hwyluso datblygiad medrau busnes y disgyblion yn effeithiol.

Mae cysylltiadau llwyddiannus gyda'r meithrinfeydd lleol yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym yn yr ysgol. Mae'r cydweithio agosach diweddar gyda'r ysgol iau gyfagos yn sicrhau profiadau trosglwyddo esmwyth i ddisgyblion ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â'i chlwstwr o ysgolion i safoni a chymedroli gwaith disgyblion, rhannu profiadau a chyfnewid arferion da. Mae hyn yn cryfhau dealltwriaeth athrawon o'r deilliannau ac yn sicrhau cytundeb o ran asesu.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n llwyddiannus. Mae wedi ei staffio'n effeithiol a gwneir defnydd da o arbenigedd unigolion i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu. Mae

cyfraniad a chefnogaeth y cymorthyddion dosbarth yn gryfder yn yr ysgol.  Maent yn cynnig cynhaliaeth werthfawr i athrawon ac yn dylanwadu'n gadarnhaol at godi safon gwaith a chyrhaeddiad disgyblion.

Gwna athrawon ddefnydd pwrpasol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu, i weithio ar y cyd.  Caiff y trefniadau hyn eu rheoli'n effeithiol.  Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr y staff cyfan yn cyfrannu at welliannau mewn addysgu a dysgu a chaiff hyfforddiant ei gynllunio'n ofalus mewn perthynas â blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion unigol.

Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu effeithiol.  Mae'r nifer o rwydweithiau dysgu mewnol sy'n cynnig ystod eang o gyfleoedd priodol i athrawon a chymorthyddion gydweithio ar brosiectau priodol, yn cael effaith gadarnhaol ar les ac ar wella medrau iaith a rhifedd y disgyblion.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro a rheoli gwariant yn ofalus.  Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i wella'r ddarpariaeth ymhellach ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth ar brofiadau dysgu eang.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6692129 - YSGOL BABANOD LLANGENNECH**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 220 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 9.3 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 55 | 52 | 71 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 100.0 | 98.1 | 98.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 10 | 17 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 90.0 | 94.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 30.0 | 23.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 40 | 42 | 54 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 17.5 | 23.8 | 29.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 55 | 52 | 71 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 98.1 | 98.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 21.8 | 11.5 | 23.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 55 | 52 | 71 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 98.1 | 98.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 41.8 | 40.4 | 53.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

### Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 39 | 37<br>95%<br>63% | 2<br>5%<br>32% | 0<br>0%<br>3% | 0<br>0%<br>1% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| My child likes this school. | 39 | 36<br>92%<br>73% | 3<br>8%<br>25% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 39 | 36<br>92%<br>72% | 3<br>8%<br>25% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| My child is making good progress at school. | 39 | 35<br>90%<br>61% | 4<br>10%<br>33% | 0<br>0%<br>3% | 0<br>0%<br>1% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| Pupils behave well in school. | 39 | 33<br>85%<br>46% | 4<br>10%<br>45% | 0<br>0%<br>4% | 0<br>0%<br>1% | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| Teaching is good. | 39 | 32<br>82%<br>60% | 6<br>15%<br>35% | 0<br>0%<br>2% | 0<br>0%<br>0% | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 39 | 36<br>92%<br>64% | 3<br>8%<br>33% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 39 | 32<br>82%<br>47% | 6<br>15%<br>40% | 0<br>0%<br>6% | 0<br>0%<br>1% | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 39 | 37<br>95%<br>58% | 2<br>5%<br>33% | 0<br>0%<br>4% | 0<br>0%<br>1% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 39 | 32<br>82%<br>59% | 7<br>18%<br>36% | 0<br>0%<br>2% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| My child is safe at school. | 39 | 37<br>95%<br>66% | 1<br>3%<br>31% | 1<br>3%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 38 | 28<br>74%<br>50% | 6<br>16%<br>34% | 0<br>0%<br>4% | 0<br>0%<br>1% | 4 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 39 | 33<br>85%<br>49% | 5<br>13%<br>40% | 1<br>3%<br>8% | 0<br>0%<br>2% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 39 | 37<br>95%<br>62% | 2<br>5%<br>31% | 0<br>0%<br>4% | 0<br>0%<br>2% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| I understand the school’s procedure for dealing with complaints. | 39 | 34<br>87%<br>45% | 4<br>10%<br>38% | 1<br>3%<br>7% | 0<br>0%<br>2% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 39 | 32<br>82%<br>56% | 5<br>13%<br>38% | 0<br>0%<br>2% | 0<br>0%<br>0% | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 37 | 31<br>84%<br>43% | 3<br>8%<br>33% | 0<br>0%<br>4% | 0<br>0%<br>1% | 3 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 39 | 28<br>72%<br>54% | 6<br>15%<br>38% | 2<br>5%<br>5% | 0<br>0%<br>1% | 3 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| The school is well run. | 39 | 36<br>92%<br>61% | 3<br>8%<br>32% | 0<br>0%<br>3% | 0<br>0%<br>2% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Eleri Anwen Hurley | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Deris Davies Williams | Arolygydd Lleyg |
| Dafydd Iolo Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Louise Parry | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.